# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT(2) 01-06

### Dyddiad y cyfarfod: 11 Ionawr 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00 -12.20
### Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

#### Aelodau’r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Robin Shaw | Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru |
| Piers Bisson | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Chris Hale | Swyddfa’r Prif Swyddog Technoleg |

| | |
|---|---|
| Liz Cassidy | Swyddog Polisi, Swyddfa Brwsel yr UE |
| Graham Winter | Ymchwil yr Aelodau a Gwasanaeth y Pwyllgor |

## Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli** | **Eitem(au) agenda** |
|---|---|---|
| Bob Cherryman | Pennaeth Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru | 4 |
| Guto Owen | Asiantaeth Ynni Sir Gaerfyrddin | 4 |

## Gwasanaeth y Pwyllgor

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Alun Ffred Jones i'r Pwyllgor a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at gydweithio ag ef. Estynnodd y Cadeirydd hefyd groeso i Glerc newydd y Pwyllgor, Claire Morris.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Papur: EDT(2) 01-06 (p.1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ei adroddiad.

## Camau i'w cymryd

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu nodyn ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynghylch cyllideb derfynol yr UE a'r amserlen arfaethedig.
- Nododd y Cadeirydd y byddai Aelodau'r Pwyllgor yn clywed am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Canllawiau Cymorth Rhanbarthol yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 8 Chwefror
- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i gynnwys y Pwyllgor wrth lunio'r ddogfen raglennu sengl
- Cytunodd y Clerc i drefnu sesiynau briffio ar gronfeydd strwythurol ar gyfer Aelodau
- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch amseroedd hedfan a meysydd awyr y gwasanaeth awyr rhwng Caerdydd a Brwsel
- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch swyddi'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru yng nghyd-destun Adolygiad Lyons.
- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu papur i'r Pwyllgor ynghylch costau ynni i gwmnïau

## Eitem 3: Cymru: Economi yn Ffynnu: (WAVE)

Papur: EDT(2) 01-06 (p.2)

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yr adroddiad

## Camau i'w cymryd

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ynghylch amserlen ehangu pellach ar gyfer y cynlluniau peilot y cyfeiriwyd atynt yn WAVE
- Nododd y Cadeirydd y byddai Aelodau'r Pwyllgor yn clywed am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar 8 Chwefror
- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddosbarthu nodyn i Aelodau ynghylch y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer dewis y cwmnïau sydd ynghlwm â'r Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau
- Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu llythyr at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn nodi sylwadau'r Pwyllgor.

## Eitem 4: Papur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar Effeithlonrwydd Ynni

Papur: EDT(2) 01-06 (p.3)
EDT(2) 01-06 (p.4)
EDT(2) 01-06 (p.5)

EDT(2) 01-06 (p.6)
EDT(2) 01-06 (p.7)

4.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniadau

**Camau i'w cymryd:**

- Cytunodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i ddarparu papur ar gyfer y Pwyllgor yn egluro'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y ddogfen fframwaith cyfeirio strategol cenedlaethol, mewn perthynas â sut y bydd rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn cael eu defnyddio, gan gyfeirio'n arbennig at effeithlonrwydd ynni
- Cytunodd y Pwyllgor i ymateb i Bapur Gwyrdd y Comisiwn Ewropeaidd

## Eitem 5: Blaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd

Papur: EDT(2) 01-06 (p.8)

5.1 Nododd y Pwyllgor y flaenraglen waith

**Camau i'w cymryd:**

- Cytunodd y Pwyllgor ar y blaenoriaethau a bennwyd ym mharagraff 8 yn y papur

## Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi

Papur: EDT(2) 16-05 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr
Papur: EDT(2) 01-06 – Camau heb eu Cymryd

- Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr yn gofnod cywir.

## Gwasanaeth y Pwyllgor